
PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 18 EBRILL 2016

Yn bresennol:-

Aelod Etholedig:- Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams.

Aelodau Annibynnol:- Ms Jacqueline Hughes, Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

Aelod Pwyllgor Cymunedol:- Mr David Clay.

Hefyd yn Bresennol: Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriad:- Y Cynghorydd Lesley Day.

Croesawyd Mr Aled Jones i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau.

Dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Lesley Day yn dilyn llawdriniaeth ddiweddar.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2016 fel rhai cywir.

3. CEISIADAU AM ODDEFEB

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a phenderfynu ar ddau gais am oddefeb gan aelodau o Gyngor Tref Tywyn mewn perthynas â thrafodaethau pwyllgor rheoli safle carafanau y mae'r Gyngor Tref yn berchen arno, sef Parc Carafanau a Gwersylla Ynysymaengwyn, oherwydd bod ganddynt fuddiannau sy'n rhagfarnu drwy eu cysylltiadau â safleoedd carafanau cyfagos.

Manylwyd ar y ddau gais yn unigol, sef:-

- Cais gan y Cynghorydd Richard Vaughan, am hawl i siarad yn unig.
- Cais gan y Cynghorydd Anne Lloyd Jones, am hawl i siarad a phleidleisio.

Cais y Cynghorydd Richard Vaughan

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr ymhellach:-

- Bod yr ymgeisydd yn gallu defnyddio ei brofiad o redeg busnes tebyg i ddarparu cyngor a gwybodaeth i Bwyllgor Rheoli Safle Carafanau Ynysymaengwyn.
- Bod rheolwr safle Ynysymaengwyn a'i wraig yn mynychu'r cyfarfodydd hefyd.
- Mai mater i'r pwyllgor oedd cloriannu pwysigrwydd y Cod Ymddygiad yn erbyn cyfraniad yr aelod i'r Pwyllgor Rheoli.

Yn dilyn trafodaeth:-

PENDERFYNWYD gwrthod y cais am oddefeb am y rhesymau a ganlyn:-

- Tra yn derbyn bod gan yr aelod wybodaeth ac arbenigedd oedd yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i waith Pwyllgor Maes Carafanau Ynysymaengwyn, 'roedd yn medru darparu'r wybodaeth gan ei fod yn rhedeg maes carafanau masnachol tebyg, cyfagos. 'Roedd y buddiant felly yn un sylweddol iawn ac felly 'roedd y perygl o niwed i hyder y cyhoedd yn uchel. Nid oedd y pwyllgor o'r farn bod y wybodaeth a'r cyngor allai ddarparu mor arbenigol neu unigryw fel nad oedd modd yn rhesymol ei gael o ffynonellau eraill.

Cais y Cynghorydd Anne Lloyd Jones

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr ymhellach:-

- Gan nad oedd yr ymgeisydd yn rhedeg safle gyda'r un math o ofynion nac ar yr un raddfa â Pharc Carafanau a Gwersylla Ynysymaengwyn (eithr safle trwyddedig ar gyfer aelodau'r Clwb Carafanau yn unig), nid oedd mewn sefyllfa i gynnig yr un lefel o arbenigedd i Bwyllgor Rheoli Safle Carafanau Ynysymaengwyn.
- Ei fod ar ddeall bod yr aelod yn weithgar gyda Chwmni Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn medru adrodd yn ôl o'r maes hwnnw i'r Pwyllgor Rheoli.
- Mai mater i'r pwyllgor oedd cloriannu pwysigrwydd y Cod Ymddygiad yn erbyn cyfraniad yr aelod i'r Pwyllgor Rheoli.

Yn dilyn trafodaeth:-

PENDERFYNWYD gwrthod y cais am oddefeb am y rhesymau a ganlyn:-

- Nid oedd tystiolaeth fod gan yr aelod arbenigedd neu wybodaeth arbenigol neu unigryw a fyddai gymaint o fudd i waith Pwyllgor Maes Carafanau Ynysymaengwyn fel y byddai'n cyfiawnhau caniatáu iddi gymryd rhan yn nhrefodaethau'r pwyllgor. 'Roedd y Pwyllgor Safonau, felly, o'r farn y byddai hyder y cyhoedd yn cael ei niweidio petai'n caniatáu goddefeb yn yr achos hwn.

4. HUNAN-ASESIAD A RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor gynnal asesiad o waith ac allbynnau'r Pwyllgor yn ystod 2015-16 ac ystyried rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2016-17.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y swyddogaethau a restrwyd yng ngholofn gyntaf yr hunan asesiad gan nodi pa asesiad a gredai oedd yn berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:-

Categori 1 – Tystiolaeth bod y pwyllgor yn cyflawni'r gofynion yn llawn.

Categori 2 – Tystiolaeth bod y pwyllgor yn cwrdd â'r gofynion sylfaenol, ond bod modd gwneud rhagor i gwrdd yn llawn.

Categori 3 – Dim tystiolaeth bod y pwyllgor yn cyflawni'r gofynion.

Gwahoddwyd y pwyllgor hefyd i ychwanegu at y colofnau 'Tystiolaeth' a 'Champau Pellach' ac eglurwyd y byddai unrhyw awgrymiadau am gamau pellach yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y pwyllgor i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD

- (a) **Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i waith (ychwanegiadau i'r ddogfen mewn llythrennau italig ac wedi'u tanlinellu):-**

SWYDDOGAETH	ASESIAD (1/2/3)	Tystiolaeth	Camau pellach
Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau	<u>1</u>	Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill. Rhai o'r aelodau wedi mynychu pwyllgorau / cyfarfodydd Cyngor Llawn, Cabinet a Chynghorau Tref a Chymuned fel sylwebyddion.	Parhau i fynychu a chefnogi Parhau i gefnogi gan gynnwys defnydd gwe ddarlledu
Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad	<u>1</u>	Trefnu Hyfforddiant ar gyfer aelodau Cynghorau Tref a Chymuned Trefnu Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Cyngor	Ystyried adborth Hyfforddiant a rhaglen newydd
Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad	<u>1</u>	Trefnwyd i gylchredeg arweiniad diwygiedig ar y Cod Ymddygiad gan yr Ombwdsmon i holl aelodau'r Cyngor Rhoddwyd sylwadau ar elfennau o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015	Adolygu newidiadau diweddaraf i'r Cod
Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad	<u>1</u>	Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a datganiadau a wneir Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch.	Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth Ystyried y diwigiadau i'r Cod ymddygiad a sut i rannu'r newid.
Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad	<u>1</u>	Mynychodd aelodau'r gynhadledd safonau yng Nghaerdydd ac adrodd yn ôl. Trefnu Hyfforddiant ar gyfer aelodau Cynghorau Tref a Chymuned	Rhaglen Hyfforddiant newydd

		Trefnu Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Cyngor	
Rhoi goddefebau i aelodau	<u>1</u>	Ymdriniwyd â 2 gais am oddefebau gan aelodau o'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned Cymerwyd trosolwg o'r gyfundrefn i sicrhau cysondeb a phriodoldeb.	
Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon	<u>1</u>	Cynhaliwyd 1 gwrandawriad yn 2015/16	
Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad	<i><u>(Dim byd i'w fesur)</u></i>	Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath	
Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned	<u>2</u>	Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i glerc cod cynghorau cymuned yn Hydref 2013 Anfonir adroddiad blynyddol y Pwyllgor at yr holl gynghorau cymuned. Canfasiwyd barn y cynghorau cymuned ar hyfforddiant yn seiliedig ar y Cod a dylanwad llywodraethu da. Cynhaliwyd Hyfforddiant ar gefn y gwaith yma mewn 4 canolfan.	Rhaglen Hyfforddiant amgen. ‘Roedd angen, fodd bynnag, symud ymlaen i gynhyrchu trefn Ddatrys Leol enghreifftiol at ddefnydd y cynghorau cymuned.

- (b) Cynnwys troed nodyn i'r hunan asesiad yn cynnwys rhywfaint o'r ystadegau o safbwynt presenoldeb yn yr hyfforddiant ac yn datgan, o ystyried nad oes gorfodaeth ar aelodau i fynychu, bod y Pwyllgor Safonau o'r farn ei fod wedi cyflawni ei ofynion yn dda iawn o ran cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad, ac y dylai cynghorwyr gymryd yr hyfforddiant fwy o ddifri'.
- (c) Cymeradwyo'r rhaglen waith ganlynol ar gyfer 2016/17:-

27 Mehefin, 2016

- Adroddiad Blynyddol
- Honiadau yn erbyn Aelodau
- Adolygu trefn i aelodau fynychu cyfarfodydd pwyllgorau a chynghorau cymuned – gwersi a ddysgwyd. (*Gofynnwyd i'r aelodau feddwl rhwng hyn a Mehefin sut y gellid mynd ynghylch hyn.*)

3 Hydref, 2016

- Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon
- Honiadau yn erbyn aelodau
- Trefn Datrys Lleol Model Cynghorau Cymuned
- Adolygiad protocolau

23 Ionawr, 2017

- Cofrestr rhoddion a lletygarwch
- Cofrestr Datgan Buddiant
- Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu
- Honiadau yn erbyn aelodau

27 Mawrth, 2017

- Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith
- Hyfforddiant
- Paratoi ar gyfer etholiad 2017 – codi ymwybyddiaeth clercod cynghorau tref a chymuned ynglŷn â'r disgwyliadau sydd arnynt o safbwynt darparu gwybodaeth i ddarpar gynghorwyr parthed gofynion y Cod Ymddygiad.

5. DIWYGIADAU I'R COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor nodi diwygiadau i rai elfennau allweddol o'r Cod Ymddygiad presennol, yn sgil cyflwyno Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 ar 1 Ebrill, 2016. Gofynnwyd hefyd i'r pwyllgor ystyried goblygiadau'r newidiadau i gynghorau tref a chymuned.

Eglurwyd y byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig.

PENDERFYNWYD

- (a) Nodi'r newidiadau i God Ymddygiad yr Aelodau.
- (b) Ysgrifennu at glercod y cynghorau cymuned a thref i dynnu sylw at y newidiadau a'r camau sydd angen eu cymryd mewn ymateb i hynny.

6. COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn nodi ei bod yn ofynnol bellach i'r Cyngor gyhoeddi'r Gofrestr Buddiannau Aelodau yn electronig ac yn cyflwyno diweddariad ar y broses.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 12.10 y.h.

CADEIRYDD